Rhoi cymorth i'ch plentyn ddysgu

Rhifedd

Y peth pwysicaf i'w wneud yw helpu eich plentyn i deimlo'n gadarnhaol am rifedd a chael hwyl wrth wneud rhifedd lle bynnag y mae'n bosibl.

Rhowch gyfle i'ch plentyn siarad am fathemateg.

Ceisiwch annog plant i:

- Drefnu - yn grwpiau, yn ôl trefn a chymharu
- Mesur - amser, hyd, pwysau ac arwynebedd
- Cyfrifo - adio, tynnu, lluosi a rhannu
- Trefnu a deall gwybodaeth
- Chwilio am batrymau a pherthnasoedd rhwng rhifau
- Gwneud synnwyr o wybodaeth a'i gwirio - dysgu holi 'Ydy hyn yn synhwyrol?'

Llythrennedd

Gwnewch i ddarllen fod yn hwyl!

- Sgwrsiwch yn aml. Gadewch i'r plant drafod teimladau, barn a syniadau am nifer o wahanol bynciau.
- Anogwch nhw i ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau darllen: llyfrau llun a stori, llyfrau â phenodau, atlasau, geiriaduron, cylchgronau, papurau newydd ac ati
- Rhannwch gariad at lyfrau, darllen ac ysgrifennu.
- Siaradwch am yr hyn y mae eich plentyn yn ei ddarllen ac anogwch y plant i feddwl, datrys problemau a rhagfynegi.
- Byddwch â digon o bapur ac offer ysgrifennu.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

http://wales.gov.uk/?lang=cy

http://learning.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy

Gwybodaeth i Rieni

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme

Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy

Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)?

Cafodd y FfLlRh ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu plant Cymru i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Bydd y fframwaith yn galluogi pob athro i fonitro cynnydd disgyblion yn erbyn disgwyliadau fesul blwyddyn ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Bydd defnyddio'r wybodaeth hon yn helpu'r ysgol i adnabod y ffordd orau i herio a chynorthwyo pob un o'n dysgwyr.

Cymorth i Ysgolion

- Sefydlwyd Rhaglen Gymorth Genedlaethol i helpu pob ysgol i weithredu'r FfLlRh. Mae wedi cael ei theilwra i ateb anghenion ysgolion unigol, athrawon a dysgwyr.

Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

O fewn llythrennedd rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Darllen ar draws y cwricwlwm
- Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

O fewn rhifedd rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- Datblygu ymresymu rhifyddol
- Defnyddio sgiliau rhif
- Defnyddio sgiliau mesur
- Defnyddio sgiliau data

Asesu yn erbyn y FfLlRh

Y bwriad yw i asesu yn erbyn y FfLlRh gael ei ddefnyddio i gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd, cynllunio'r ystafell ddosbarth a'r cwricwlwm.

Bydd athrawon yn defnyddio'r FfLlRh i asesu:

- Cynnydd unigol. Bydd hyn yn sail i drafodaeth am gryfderau'r dysgwr ar hyn o bryd a meysydd i'w datblygu.
- Cynnydd grwpiau er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio datblygiad y cwricwlwm a'r ysgol.

Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Asesiadau yw'r profion hyn y bydd plant yn eu sefyll ym mhob ysgol yng Nghymru bob mis Mai ac maen nhw'n rhan o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd (FfLlRh). Eu prif nodau yw:

- Rhoi mesur cywir i ysgolion am beth yw sgiliau a galluoedd plant unigol
- Helpu i godi safonau llythrennedd a rhifedd i blant ledled Cymru
- Creu darlun mwy eglur o sut mae plant yn perfformio'n genedlaethol.

Adrodd i Rieni

Bydd ysgolion yn adrodd i rieni/gofalwyr ar gynnydd unigolion, eu cryfderau a'r meysydd lle gall fod angen mwy o gymorth o ran llythrennedd a rhifedd.

Hefyd bydd rhieni/gofalwyr yn cael adroddiad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ganlyniadau'r profion. Mae hyn yn cynnwys sgôr safonedig a sgôr sy'n cyfateb i oedran, a gwybodaeth sy'n dangos sut mae eich plentyn wedi perfformio o'i gymharu â phlant o oed tebyg.